CYPE(6)-13-23 - Papur i'w nodi 15

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru

5 Ebrill 2023

Annwyl Russell a Jayne,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 19 Ionawr ynglŷn â gwasanaeth cwnsela cenedlaethol i blant. Ymddiheuriadau diffuant am yr oedi cyn ymateb, rydym wedi bod yn cael lefel sylweddol o ohebiaeth yn ddiweddar, ac yn anffodus mewn rhai achosion mae wedi cymryd yn hirach i ymateb nag y byddem wedi dymuno.

Fel y gwyddoch, mae iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru yn flaenoriaeth hynod bwysig imi, ac rydym yn defnyddio dull gweithredu system gyfan ar gyfer gwella iechyd meddwl a llesiant emosiynol, drwy sicrhau bod y gwasanaethau priodol ar gael i bawb. Ym mis Tachwedd, rhoddais ddiweddariad i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n egluro'r newidiadau yr ydym yn parhau i'w gweithredu er mwyn gwella ein gwasanaethau.

O ran eich awgrym ynglŷn â gwasanaeth cwnsela cenedlaethol i blant, mae amrywiaeth o wasanaethau cenedlaethol eisoes ar gael i'w defnyddio lle bo hynny'n briodol. Mae gan ein darpariaeth gwnsela yn yr ysgol ddyletswydd statudol i roi cymorth i blant o bob oed ym Mlwyddyn 6 ac yn uwch, gyda gwasanaethau CAMHS yn darparu mewngymorth. Yn 2020, fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd adolygu'r *pecyn cymorth gweithredu cwnsela mewn ysgolion ac yn y gymuned,* gan dynnu sylw at yr angen i sicrhau bod cymorth cwnsela digonol ar gael yn y gymuned i blant nad ydynt yn mynd i'r ysgol gan eu bod wedi eu gwahardd neu oherwydd rhesymau eraill.

Er mwyn cefnogi ein gwaith gydag ysgolion, rydym wedi cyflwyno gwasanaeth mewngymorth ar eu cyfer. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth CAMHS i ysgolion er mwyn eu helpu i roi cymorth emosiynol i fyfyrwyr. Mae ymarferwyr iechyd meddwl dynodedig bellach yn gweithio mewn ysgolion i ddarparu gwasanaeth ymgynghori, cymorth cyswllt, cyngor a hyfforddiant. Yn sgil gweithredu rhaglen beilot

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

lwyddiannus, mae'r gwasanaeth bellach wedi cael ei gyflwyno ar draws Cymru gyfan. Rydym wedi neilltuo dros £5.3m yn y flwyddyn bresennol i gefnogi hyn, ac mae'r byrddau iechyd wedi dweud eu bod wedi recriwtio dros 100 o staff (cyfateb i staff amser llawn) i weithio gyda'r ysgolion.

Mae hyn yn ychwanegol at y gwasanaethau cwnsela a ddarperir drwy wasanaethau sylfaenol ac eilaidd CAMHS, sydd ar gael i blant o bob oed sy'n bodloni'r trothwy ar gyfer manteisio ar y cymorth hwn. Bellach mae gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru bwyntiau mynediad sengl sy'n ei gwneud yn haws cael mynediad at wasanaethau, ac mae gan y byrddau amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys cwnsela, sydd ar gael i bobl ifanc tra maent yn aros i gael asesiadau neu ymyriadau, er mwyn dechrau'r broses o ddarparu mynediad amserol at gymorth.

Nid yw gwasanaethau cwnsela'n addas ar gyfer pob plentyn, yn enwedig plant iau lle mae ffocws ar chwarae, teuluoedd, a therapïau eraill. Dyma'r model sy'n cael ei fabwysiadu gan y byrddau iechyd, ac rydym yn efelychu'r model hwn yn ein gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar. Er enghraifft, ers nifer o flynyddoedd rydym wedi ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu darpariaeth, sy'n briodol ar gyfer oedran, ar gyfer plant iau sydd o dan y trothwy Blwyddyn 6 presennol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt bellach yn cynnig rhyw fath o gymorth. Amlygwyd hyn yn yr ymchwil yr oeddem wedi ei chomisiynu oddi wrth Brifysgol Caerdydd (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022), sef 'Adolygiad o wasanaethau cwnsela statudol mewn ysgolion ac yn y gymuned: Optimeiddio gwasanaethau i blant a phobl ifanc 11 i 18 oed ac ehangu i blant iau oed ysgol gynradd'. Rydym wedi bod yn gweithio gyda chomisiynwyr a darparwyr y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i weithredu ar gasgliadau'r ymchwil ac i wella'r ddarpariaeth ymhellach. Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a finnau wedi sefydlu Bwrdd Goruchwylio a Gweithredu, sy'n disodli'r Grŵp Cyd-Weinidogol ar gyfer Dull System Gyfan o Ymdrin â Llesiant, er mwyn inni gael sicrwydd bod ein gwaith llesiant yn cael yr effaith a ddymunir. Mae ffrwd waith gwnsela ddynodedig ar gyfer ysgolion wedi cael ei chreu o dan y bwrdd hwn, gyda'r nod o ystyried sut i ehangu a gwella'r ddarpariaeth gwnsela a'r cymorth therapiwtig sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

Hefyd rydym wrthi'n tendro ar gyfer cael rhagor o ymchwil yn y maes hwn, er mwyn gwerthuso effaith y gwasanaethau i bobl ifanc yn yr ysgol ac yn y gymuned. Y nod yw asesu effeithiolrwydd gwasanaethau a'u heffaith ar iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc, canlyniadau addysgol a chymdeithasol pellach (ee cyrhaeddiad, presenoldeb a chydberthynas), ac atgyfeiriadau i CAMHS a gwasanaethau iechyd meddwl eraill.

Wrth inni symud i'r dyfodol, bydd ffocws ar ddefnyddio fframwaith NYTH/NEST i ymwreiddio'r dull gweithredu dim drws anghywir yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'r holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi dynodi arweinwyr NYTH/NEST er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu'r fframwaith hwn, ac fel rhan o hyn, mae'r rhanbarthau'n mapio pa wasanaethau iechyd meddwl a llesiant sydd ar gael, gan gynnwys gwasanaethau cwnsela, gyda'r nod o wella mynediad at y gwasanaethau hynny. Mae'n bwysig nad ydym y mynd ati i ddarparu cymorth

mewn dull un ateb sy’n addas i bawb a allai creu perygl o gau rhai aelodau o gymdeithas allan – yn enwedig y rheini sydd fwyaf agored i niwed. Rwyf hefyd yn ymwybodol iawn o gais a ailadroddir yn fynych gan bobl ifanc, sef i beidio â rhoi gormod o wedd feddygol ar faterion sy’n ymwneud â thyfu i fyny, ac mae angen inni sicrhau bod hynny’n cael ei gydnabod fel rhan o’n dull gweithredu.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing